# Proffil Swydd

Cyflog: Gradd 4 - £27,254 - £28,598

| MANYLION AM Y SWYDD HON |
| --- |
| Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn chwilio am geisiadau gan unigolion ar gyfer swydd Cydlynydd Prosiect a Swyddfa Ystadau, wedi'i leoli ym Mhencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin. Mae'r swydd hon yn llawn amser, yn gweithio 37 awr yr wythnos.<br><br>Rôl yr ymgeisydd llwyddiannus fydd cydlynu prosiectau gwaith cyfalaf a mân. Bydd hyn yn cynnwys cydlynu'r gofrestr asedau ar draws yr Ystâd, system AMS, lluniadau/cynlluniau CAD a mannau partneriaid cydweithredol. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn cefnogi'r Swyddog Cynaliadwyedd wrth gasglu data amgylcheddol a chynorthwyo â gweinyddiaeth ddyddiol y swyddfa, gan sicrhau gweinyddiaeth effeithiol ac effeithlon swyddogaeth yr Adran Ystadau.<br><br>Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ynghylch y swydd, cysylltwch â Dirprwy Bennaeth Ystadau, Alex Rowland, ar a.rowland@mawwfire.gov.uk |

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Cydgysylltydd Swyddfa a Phrosiectau yr Adran Ystadau |
| **SAFLE/RÔL:** | Gradd 4 |
| **CYFEIRNOD Y SWYDD:** | |
| **LLEOLIAD:** | Pencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin |
| **YN GYFRIFOL I:** | Dirprwy Bennaeth yr Adran Ystadau |
| **PRIF DDIBEN Y SWYDD:** | Cydlynu prosiectau gwaith cyfalaf a mân weithiau. Gan gynnwys cydlynu cofrestr asedau'r Ystâd gyfan, y System Rheoli Asedau (AMS), lluniadau / cynlluniau CAD a mannau cydweithredol i bartneriaid. Cynorthwyo’r Swyddog Cynaliadwyedd i gasglu data amgylcheddol. Cynorthwyo gyda’r gwaith gweinyddu o ddydd i ddydd yn y swyddfa, gan sicrhau bod swyddogaeth yr Adran Ystadau yn cael ei gweinyddu mewn modd effeithiol ac effeithlon. |

| ATODLEN O GYFRIFOLDEBAU | YN GYFRIFOL I |
|---|---|
| Ymgymryd â dyletswyddau gweinyddol yn yr Adran Ystadau, yn cynnwys prosesu data, teipio cyffredinol, ffeilio â llaw a ffeilio electronig, bodloni terfynau amser llym a sicrhau bod cofnod o gwynion ar gael. | Dirprwy Bennaeth yr Adran Ystadau |
| Cysylltu â Rheolwyr Adrannol a pharatoi dogfennau ac apwyntiadau ar eu cyfer, yn ôl y gofyn, gan gynnwys rheoli dyddiaduron, teipio llythyrau cyfrinachol, ffeilio cyfrinachol, a fformadu a chyflwyno dogfennau. | Dirprwy Bennaeth yr Adran Ystadau |
| Darparu gwasanaeth mewnbynnu a gweinyddu data ar gyfer System Rheoli Asedau'r Gwasanaeth (CIPFA neu system debyg), yn cynnwys cofnodi arolygon cyflwr stoc, asedau safleoedd ac adeiladau a manylion cyfreithiol / rhannu safleoedd.  Sicrhau cydymffurfedd statudol bob amser. | Dirprwy Bennaeth yr Adran Ystadau |
| Cysylltu ag Adrannau eraill y Gwasanaeth ynglŷn â materion sy'n ymwneud â'r Adran Ystadau, a chynorthwyo gyda'r gwaith o gyfleu gwybodaeth yn ôl y gofyn. | Dirprwy Bennaeth yr Adran Ystadau |
| Bod yn gyfrifol am 'ffurfweddu' yr holl ddogfennau a'r systemau ffeilio yn yr adran, a chynorthwyo gyda'r gwaith o weinyddu prosiectau'r adran. | Dirprwy Bennaeth yr Adran Ystadau |
| Coladu a fformatio data cynaliadwyedd mewn perthynas ag ystâd a chyfleusterau'r Gwasanaeth i gefnogi amcanion amgylcheddol y Gwasanaeth. | Dirprwy Bennaeth yr Adran Ystadau |
| Cofnodi data a chynnal manylion am eiddo ar "e-PIMS" (Gwasanaeth Mapio Gwybodaeth am Eiddo Electronig) a reolir gan Lywodraeth Cymru. Diweddaru cofnodion a dogfennau Y Gofrestrfa Tir. | Dirprwy Bennaeth yr Adran Ystadau |
| Darparu cymorth ar gyfer system Desg Gymorth yr Adran Ystadau. Ymgymryd â gwaith cynnal a chadw ataliol statudol sydd wedi'i gynllunio, a sicrhau cydymffurfedd yr Ystâd. | Dirprwy Bennaeth yr Adran Ystadau |
| Cyflawni dyletswyddau Fflysio Legionella ar safle Pencadlys y Gwasanaeth i sicrhau y cedwir at weithdrefnau. | Dirprwy Bennaeth yr Adran Ystadau |
| Rheoli'r stoc o offer swyddfa a defnyddiau traul eraill y swyddfa, prosesu'r gofynion o ran adnoddau allanol yn ôl yr angen, a darparu adroddiadau am wariant gwirioneddol a gwariant ymrwymedig, gan gynnwys dadansoddiadau. | Dirprwy Bennaeth yr Adran Ystadau |

| | |
|---|---|
| Cefnogi gofynion prynu mewnol yr Adran fel archebwr Agresso ar gyfer prosiectau gwaith cyfalaf a mân weithiau. | Dirprwy Bennaeth yr Adran Ystadau |
| Darparu cymorth dros y ffôn, a bod ar gael ar safle'r Pencadlys ar gyfer unrhyw ymholiadau / ymwelwyr sy'n gysylltiedig â'r Adran Ystadau. | Dirprwy Bennaeth yr Adran Ystadau |
| Cynnal blwch allweddi'r Adran Ystadau, gan sicrhau bod unrhyw ymwelwyr neu aelodau staff yn llofnodi wrth gymryd allweddi, a'u bod yn eu dychwelyd i'r Adran. | Dirprwy Bennaeth yr Adran Ystadau |
| Darparu cymorth gweinyddol a chydlynu'r prosiectau gwaith cyfalaf a mân weithiau. Bydd hynny'n cynnwys cynnal systemau olrhain cyllid prosiectau a chofrestrau risgiau. Cysylltu â rhanddeiliaid prosiectau a chydlynu ymweliadau i gynnal arolwg o safleoedd. Cofnodi sesiynau cynefino ac asesiadau risg ar gyfer cyflenwyr gan sicrhau eu bod yn gyfredol. Cofnodi manylion allweddol prosiectau gan weithio gyda rheolwr y prosiect cyfalaf a Dirprwy Bennaeth yr Adran Ystadau. | Dirprwy Bennaeth yr Adran Ystadau |
| Mynychu cyfarfodydd, fforymau, gweithdai a sesiynau hyfforddi mewnol ac allanol, er mwyn datblygu sgiliau a allai fod yn fuddiol o ran datblygiad personol ac anghenion y busnes. | Dirprwy Bennaeth yr Adran Ystadau |
| Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â gradd a chyfrifoldebau'r swydd y gellir eu neilltuo o bryd i'w gilydd. | Dirprwy Bennaeth yr Adran Ystadau |
| Ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl o gam-drin a/neu esgeulustod yn y cymunedau ehangach drwy adrodd pryderon i Swyddog Diogelu'r Gwasanaethau a/neu'r Tîm Diogelu. | Swyddog Diogelu'r Gwasanaethau a/neu'r Tîm Diogelu. |

